

Costau aros mewn gwesty

12/07/2012



Annwyl

Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Mai, pan wnaethoch ofyn:

Hoffwn ichi ddatgelu faint o arian a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i westy Dewi Sant yng Nghaerdydd am lety dros nos i a) Aelodau'r Cynulliad a b) unigolion eraill, ym mlynnyddoedd ariannol 2007-08, 2008-09, 2009-10, 2010-11, 2011-12 a 2012-13.

Gweler y tabl isod, sy'n rhoi manylion am lety dros nos yng ngwesty Dewi Sant:

Blwyddyn	Aelodau'r Cynulliad:	Unigolion eraill
2012-2013	455.00	
2011/2012	6,865.00	85.00
2010/2011	13,340.70	2,350.00
2009/2010	3,942.00	85.00
Cyfanswm	24,602.70	2,520.00

Bydd rhai Aelodau yn aros mewn gwestai yn agos i'r Senedd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad. Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu lefel taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Nodir y rheolau sy'n sail i'r trefniadau hyn ym mhennod 4 o'r [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau](#), sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad: <http://www.assemblywales.org/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2.htm>. Yr uchafswm y gellir ei hawlio am noson mewn gwesty yng Nghaerdydd (gan gynnwys brecwast a pharcio) yw £95. Mae'r Cynulliad yn cadw ystafelloedd mewn nifer o westai ym Mae Caerdydd, neu'n agos i'r Bae, sy'n codi £95 neu lai. Caiff y gost wirioneddol a dalwyd am lety Aelodau Cynulliad unigol ei chyhoeddi'n rheolaidd yn y Gronfa Ddata Lwfansau ar wefan y Cynulliad: <http://www.lwfansau.cynulliadcymru.org.uk>

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Fel y trafodwyd yn ein sgwrs ar y ffôn ar 11 Mehefin, nid yw'r wybodaeth am flynyddoedd 2007-08 a 2008-09 yn cael ei chadw ar ffurf electronig, a byddai angen rhagor o amser arnom i'w darparu. Felly, bu inni gytuno y byddwn yn anfon y wybodaeth mewn perthynas â 2009-2013 atoch, ac y byddech yn cysylltu â ni pe baech am inni fwrw ymlaen â'r gwaith o gael y wybodaeth am 2007-2009.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm>. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion, sydd ar gael ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/help/conhome/con-complaint.htm>. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru